**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

—

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS,
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

20 Rhagfyr 2022

Annwyl Julie,

Gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

Ymhellach i wahoddiad a anfonwyd atoch i ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Ionawr, deallaf mai eich dewis chi yw cymryd rhan yn y sesiwn yn rhithiol.

Gallaf gadarnhau mai fy newis i yw y dylid cynnal sesiynau craffu Gweinidogol yn bersonol oni bai bod rhesymau penodol dros beidio gwneud hynny, gan fod hyn yn hwyluso gwaith craffu mwy effeithiol. Mae presenoldeb wyneb yn wyneb yn hybu gwell ymgysylltiad rhwng Aelodau a Gweinidogion.

Mae'r dull hwn yn gyson â chanllawiau'r Llywydd, a gyhoeddwyd fis Tachwedd i holl Aelodau'r Senedd o dan Reol Sefydlog 6.17 ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes a Fforwm y Cadeiryddion, sy'n nodi:

"Pan fo pwyllgor yn cyfarfod yn bersonol, disgwylir y bydd Gweinidogion hefyd yn bresennol yn bersonol".

Mae'r canllawiau'n cydnabod y bydd adegau pan na fydd hyn yn bosibl, gan nodi y dylai Cadeiryddion a Gweinidogion ymgysylltu'n adeiladol mewn achosion o'r fath i ddod o hyd i ateb priodol.

O ystyried pwysigrwydd gwaith craffu blynyddol y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn cymryd rhan yn y sesiwn graffu ar 25 Ionawr yn bersonol.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**